# Pam mae pobl yn gweddïo?

Dyma rai gweddïau wedi cael eu hysgrifennu gan blant.

- Torrwch allan y gweddïau a'u dosbarthu'n ddau grŵp - gweddïau sy'n dweud ***diolch*** a gweddïau sy'n ***gofyn am bethau***.
- Ychwanegwch weddïau newydd yn y blychau gwag.

Diolch Dduw am ein beics a'n teganau.

Diolch, Dduw, am ffrwythau a llysiau.

Diolch am y glaw, yr haul ac am yr enfys.

Annwyl Dduw, gofala am blant fy nosbarth.

Annwyl Dduw, helpa holl bobl y byd. Amen.

Gad i taid fod yn hapus yn y nefoedd.

Os gweli di'n dda, Duw, helpa'r bobl sy'n sâl. Gwna iddyn nhw deimlo'n well.

Annwyl Dduw, gofala am fy nghathod a fy moch cwta ac am fy nheulu.

Annwyl Dduw, diolch am nain sy'n gofalu amdanaf fi.

Diolch, Dduw, am amddiffyn ein teuluoedd.


© Tania ap Siôn and Leslie J Francis, 2015